OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1375 (Cy.120) (C.82)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU
TRWYDDEDAU A THRWYDDEDU, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plismona a Throsedd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 27 Ebrill 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 116(4)(b) a (7) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plismona a Throsedd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Plismona a Throsedd 2009,

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Trwyddedu 2003(**2**),

ystyr "Deddf 1982" ("*the 1982 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(**3**).

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Mai 2010

2. 1 Mai 2010 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf 2009 at ddibenion gwneud gorchmynion o dan baragraff 3 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno:

(a) adran 27(11) (darpariaeth ar gyfer Atodlen 3 i Ddeddf 2009 i gael effaith);

(b) paragraffau 3 a 5 o Atodlen 3 (pŵer i wneud darpariaeth drosiannol wrth fabwysiadu Atodlen 3 i Ddeddf 1982 fel y'i diwygiwyd).

(**1**) 2009 p. 26.
(**2**) 2003 p. 17.
(**3**) 1982 p. 30. Diwygiwyd Atodlen 3 i'r Ddeddf honno gan adran 52 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p. 48) a pharagraff 7 o Atodlen 14 iddi, adran 198 o Ddeddf Trwyddedu 2003 a pharagraffau 82 ac 85 o Atodlen 5 iddi, adran 24 o Ddeddf Sinemâu 1985 (p. 13) a pharagraff 16 o Atodlen 2 iddi, adran 26(1) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (p. 60), adrannau 111 a 174 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) a pharagraff 22 o Atodlen 7 iddi, O.S. 1984/447, O.S. 2005/886 ac O.S. 2009/2999, ac o ran bwrdeistrefi penodol yn Llundain, gan adran 12 o Ddeddf Cyngor Llundain Fwyaf (Pwerau Cyffredinol) 1986 (p. iv), adran 33 o Ddeddf Awdurdodau Lleol Llundain 2007 (p. ii) ac O.S. 2005/1541. Caiff ei diwygio hefyd gan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26) o 6 Ebrill 2010 ymlaen o ran Lloegr ac o 8 Mai 2010 ymlaen o ran Cymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 8 Mai 2010

3. 8 Mai 2010 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf 2009:

(a) adran 27 (rheoli lleoliadau dawnsio glin ac adloniant rhywiol arall etc) i'r graddau nad ydyw eisoes mewn grym;

(b) Atodlen 3 (lleoliadau dawnsio glin ac adloniant rhywiol arall etc: darpariaeth drosiannol) i'r graddau nad ydyw eisoes mewn grym;

(c) paragraff 23 o Atodlen 7 (diwygio Deddf 2003).

Carl Sargeant
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

27 Ebrill 2010

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed o dan Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 gan Weinidogion Cymru. Mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae erthygl 2 yn rhestru darpariaethau'r Ddeddf sy'n dod i rym ar 1 Mai 2010 at ddibenion gwneud gorchmynion ynglŷn â lleoliadau dawnsio glin ac adloniant rhywiol arall. Mae erthygl 3 yn dwyn gweddill darpariaethau Deddf 2009 ynglŷn â lleoliadau adloniant rhywiol i rym ar 8 Mai 2010.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf wedi'u dwyn i rym, neu i'w dwyn i rym, drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Y dyddiad cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adran 1	15 Mawrth 2010	2010/125
Adran 2	1 Medi 2010	2010/999
Adran 3	19 Ebrill 2010	2010/999
Adran 4	19 Ebrill 2010	2010/999
Adran 5	12 Mawrth 2010	2010/507
Adran 6	25 Ionawr 2010	2009/3096
Adran 7	25 Ionawr 2010	2009/3096
Adran 8	25 Ionawr 2010	2009/3096
Adran 9	25 Ionawr 2010	2009/3096
Adran 10	29 Ionawr 2010	2010/125
Adran 11	29 Ionawr 2010	2010/125
Adran 12	29 Ionawr 2010	2010/125
Adran 13	29 Ionawr 2010	2010/125
Adran 14	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 15	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 16	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 17	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 18	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 19	1 Ebrill 2010	2010/507
Adran 20	1 Ebrill 2010	2010/507